

Glanweithdra





Glanweithdra

Clytiau

Clytiau o wllân neu o liain oedd yn cael eu defnyddio i lanhau'ch dannedd yng nghyfnod y Tuduriaid – doedd dim brws dannedd ar gael.

Byddai hen ddillad yn cael eu rhwygo i gael eu defnyddio fel clytiau; byddai'r darnau mawr yn cael eu defnyddio i lanhau'r tŷ, a byddai'r darnau bach yn cael eu defnyddio i ymolchi neu i lanhau'ch dannedd.

Byddai pobl yn glanhau eu dannedd drwy dynnu tameidiau bwyd â deintbig, ac wedyn rhwbio'u dannedd â brigyn wedi'i gnoi, neu â chlwytyn llaith ac efallai rhyw fath o bowdr arno. Doedd dim past dannedd ar gael.

Byddai pobl gyfoethog fel arfer yn defnyddio halen i lanhau eu dannedd ond bydden nhw hefyd yn defnyddio powdr alabastr neu bowdr pwmis, neu esgyrn môr-gyllell wedi'u malu. Byddai pobl dlawd yn defnyddio huddygl, neu bowdrau sgraffiniol rhad

eraill – mae yna ryseitiau ar gael at wneud powdr glanhau drwy falu esgyrn anifeiliaid hyd yn oed.

Ar ôl glanhau'r dannedd, byddai pobl yn golchi eu ceg ac yn defnyddio llwch sialc i droi eu dannedd yn wyn. Yn aml byddai pobl yn golchi eu ceg â chymysgedd arbennig o berlysiau ac weithiau gwin gwyn neu finegr. Bydden nhw'n rhoi blas ffres ar eu hanadl drwy gnoi perllysiau a sbeisys.



Sut rydyn ni'n gwybod am glytiau glanhau dannedd?

Mae cofnodion a llyfrau Tuduraidd yn disgrifio sut roedd pobl yn glanhau eu dannedd.



Glanweithdra

Crib

Byddai'r grib bren yma yn cael ei defnyddio i lanhau'r gwallt, drwy dynnu llau a'u hwyau. Wedyn byddai'r dannedd brasach yn cael eu defnyddio i dwtio'r gwallt a'i steilio.

Yng nghyfnod y Tuduriaid, byddai cribau fel arfer yn cael eu gwneud o bren, asgwrn neu ifori, ond fe allen nhw gael eu gwneud o gregyn neu o gorn.

Byddai cribau pren yn aml yn cael eu trwytho mewn olew, oedd yn helpu dannedd y grib i fynd drwy'r gwallt yn llyfn. Gallai olew persawrus gael ei ddefnyddio, gan y byddai hynny'n gadael aroglau braf ar y gwallt.

Gallai olewydd meddyginiaethol, fel olew wedi'i greu o hadau persli, neu o hadau fflamgoed neu fflamgoed yr ardd, gael eu defnyddio hefyd i drwytho'r grib cyn ei defnyddio, i gadw llau draw o'r pen.



Sut rydyn ni'n gwybod am gribau?

Darluniau a disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.



Drych

Mae'r drych pres yma wedi'i lathru'n arbennig ac wedi'i addurno'n gain ag enamel, ac mae wedi'i osod mewn cas pren sydd â leinin o frethyn.

Byddai'r mwyafrif o bobl gefnog yn oes y Tuduriaid yn defnyddio drychau metel wedi'u llathru, a doedd gan y rhan fwyaf o'r tlodion ddim drych o gwbl.

Byddai Tuduriaid cyfoethog yn teithio'n helaeth ym Mhrydain, ac yn Ewrop, ac weithiau ymhellach i ffwrdd, ac roedd drych fel hwn yn hawdd ei gludo'n ddiogel, gan fod y leinin brethyn yn cadw wyneb y drych rhag cael ei grafu.

Mae'n bosibl bod Tuduriaid eithriadol o gyfoethog yn defnyddio drychau gwydr yn eu cartrefi, mor gynnar â dechrau'r ddeuddegfed ganrif o bosibl, gan fod drychau gwydr yn cael eu gwneud y pryd hynny yn Fenis ac yn Nuremburg. Roedd gwneuthurwyr drychau Fenis a Nuremburg yn

ofalus iawn i beidio â dweud wrth neb arall sut i wneud gwydr ariannaidd, a chafodd drychau ariannaidd mo'u gwneud yn unman arall tan yr ail ganrif ar bymtheg.



Sut rydyn ni'n gwybod am ddrychau metel?

Disgrifiadau a darluniau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.



Glanweithdra

Set hylendid

Set o offer arian i'w defnyddio at hylendid personol yw hon. Roedd setiau o'r fath yn cael eu hadnabod hefyd fel setiau Chatelaine, gan eu bod yn aml yn hongian ar wregys ('chatelaine') am eich canol, ac roedden nhw fel arfer yn cael eu gwneud o fetel neu o asgwrn.

Mae'r set Chatelaine hon yn cynnwys y prif offer y byddai pobl yn eu defnyddio i ofalu am eu hylendid – picsen, ffeil ewinedd, pliciw, a chraflwy fach.

Picsen – byddai pobl yn defnyddio picsen i dynnu bwyd oedd wedi'i ddal rhwng eu dannedd, a hefyd i godi baw oddi tan eu hewinedd.

Teclyn torri ewinedd – byddai pobl yn torri eu hewinedd drwy rwbio'r teclyn yma nôl ac ymlaen â'r ewin yn yr hollt rhwng y ddau ddant. Yn lle rhwbio'r ewin i lawr fel ffeil fodern, mae'r teclyn yma'n siafio fflawiau mân o'r ewin i ffwrdd.

Pliciw – byddai pobl yn defnyddio pliciw i dynnu blew o'u haeliau, eu trwynau a'u clustiau.

Craflwy – mae'n debyg bod pobl yn defnyddio craflwy i grafu cwyr o'u clustiau.



Sut rydyn ni'n gwybod am setiau hylendid?

Disgrifiadau a darluniau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.

